# Braslunio Stori Ddata

***Defnyddiwch WordCounter i ddadansoddi geiriau cân cerddor a braslunio stori gyda'r geiriau***

## Beth yw WordCounter?

Mae WordCounter yn dadansoddi testun ac yn dweud wrthych chi'r geiriau a'r ymadroddion mwyaf cyffredin. Mae'n eich helpu i grynhoi'ch testun yn feintiol er mwyn i chi ymchwilio i sut mae geiriau'n cael eu defnyddio. Mae braslunio stori ddata yn helpu cyfranogwyr i fagu eu llythrennedd data drwy ganfod a llunio stori am ba eiriau sy'n cael ei gweld yng ngeiriau cerddor enwog.

## Nodau Dysgu

- Mwy o allu i ddadansoddi a rhesymu am ddata testun
- Deall bod modd canfod llawer o storïau mewn un set ddata
- Gallu i gyfarthrebu stori sy'n cael ei gyrru can ddata i bobl eraill yn gyflym.

## Cyfanswm amser

30 i 45 Munud

## Cynulleidfa

3 - 100 o bobl. Oedrannau 12+.
*Wedi ei ddylunio am raddau 6 - 12, dosbarthiadau Addysg Uwch, Cyrff Newyddion, Cyrff Di-elw, a Gweithdai Cymunedol. Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol gyda data.*

## Gofod

- Taflunydd a chyfrifiadur.
- Gallu i ymrannu'n grwpiau bach o 3 o amgylch cyfrifiadur.
- Byrddau mawr neu lawr, neu dâp i lynu papur wrth waliau fel y gall cyfranogwyr ddarlunio.

## Cyflenwadau

- Cyfrifiaduron
  *1 am bob 3 chyfranogwr*
- Darnau mawr o bapur
  *2 droedfedd x 3 troedfedd yn fras*
- Crayonau trwchus neu farcwyr

## Cynnal y Gweithgaredd

### Datrys Problem

Mae testun yn ddata hefyd! Mae gweld patrymau mewn setiau mawr o destun yn gallu bod yn anodd i'w wneud â llaw, ond gall cyfrifiaduron helpu. Mae WordCounter yn eich helpu i ddechrau dadansoddi testun yn feintiol drwy ddangos i chi'r geiriau a'r ymadroddion sy'n cael ei defnyddio amlaf.

### Rhannu Enghreifftiau i Ysbrydoli

Mae delweddau geiriau caneuon yn beth poblogaidd i'w wneud. Dangoswch enghreifftiau fel Tahir Hemphill's "Rap Research Lab" (http://rapresearchlab.com) (Saesneg yn unig) neu Celebrity Cruise's "Music Mapped" (https://www.celebritycruises.co.uk/music-mapped/) (Saesneg yn unig). Gofynnwch y cyfranogwyr ba storïau maen nhw'n eu gweld yn yr enghreifftiau yma.

## Cyflwyno'r Offeryn

Agorwch WordCounter https://databasiceducation.cymru/cy/wordcounter/ a dewiswch "Geiriau Caneuon Dafydd Iwan" o'r gwymplen data sampl. Gwasgwch "Cyfrifiad" i ddangos dadansoddiad o holl eiriau Dafydd Iwan. Dangoswch i'ch grŵp sut mae cwmwl geiriau'r gân yn dangos iddo ddefnyddio'r gair "llonydd" yn aml, ond dim ond drwy edrych ar y bigramau neu a'r trigramau y gallwch chi ddechrau deal sut a pham. Gallai'r ffaith i Dafydd Iwan dweud "llonydd" cynifer o weithiau one "unig" dim on unwaith fod yn stori ddifyr a datguddiol i'w braslunio. Soniwch y gallwch chi lawrlwytho CSV o'r canlyniadau am ddadansoddiad pellach.

# Cynnal y Gweithgaredd (parhad)

## Lansio'r Gweithgaredd

1. Mae gan gyfranogwyr 15 munud
2. Mae cyfranogwyr yn gweithio mewn timau o dri
3. Mae pob tîm yn defnyddio WordCounter i dadansoddi geiriau cerddor a chanfod stori i'w hadrodd am eu geiriau https://databasiceducation.cymru/cy/wordcounter/
4. Mae pob tîm yn braslunio ffordd weledol o adrodd y stori yna ar ddarn mawr o bapur gyda chrayonau.

## Rhannu Adborth

Wrth gerdded o gwmpas, cadwch lygad allan am fathau gwahanol o storiau i'w hamlygu. Os gwelwch unrhyw ddelweddau arbennig o ddiddorol, neu storiau newydd, cadwch nhw mewn cof i alw arnyn nhw yn ystod y cyfnod rhannu ar ddiwedd y gweithdy. Gyda'ch cyfyngiaday amser mewn cof, gofynnwch am grwpiau sydd eisiau rhannu eu stori. Cyfyngwch nhw i 1 funud, er mwyn peidio ag ymgolli yn enghraifft un grŵp. Wrth i bobl rannu, galwch ar unrhyw grwpiau wnaethoch chi sylwi arnyn nhw'n gynfarach sydd wedi creu storiau amgen neu wahanol.

Canolbwyntiwch ar y themâu hyn:

- Mae llawer o fathau o storiau y gallwch chi eu dweud gyda'r un data
- Mae braslunio yn ffordd ddefnyddiol o gyfathrebu'ch syniadau i'r bobl o'ch cwmpas.
- Gall gweithio gyda data fod yn hwyl.
- Dangoswch sut y gallwch chi lawrlwytho'r CSV i barhau eich dadansoddiad mewn Excel.

## I'ch atgoffa

- Mae ffigurau ffon yn dderbyniol.
- Gall storïau data fod mor syml â "Dwedodd Elvis 'love' lawer mwy o weithiau na 'clambake'".
- Mae'r blwch ticio "geiriau atal" yn gadael i chi anwybyddu neu gynnwys geiriau cyffredin fel "the" neu "and".
- Peidiwch â phoeni am fod yn berffaith, mae ond angen braslunio rhywbeth.

## Termau i'w Cyflwyno

**Bigramau**
*Ymadrodd dau air yw bigram.*

**csv**
*Ffeil "comma-separated values"; dull safonol o gadw tablau o wybodaeth mewn ffeil testun plaen.*

**Cwmwl Geiriau**
*Darlun o holl eiriau dogfen, gyda gair yn fwy o faint os caiff ei ddefnyddio'n amlach, ac yn llai o faint os caiff ei ddefnyddio llai.*


**Data ansoddol**
*Data sy'n disgrifio rhywbeth (fel darlun neu ddyfyniad).*


**Data meintiol**
*Data sy'n cyfrif neu'n mesur rhywbeth (fel rhif).*


**Geiriau atal**
*Geiriau mae'n ddefnyddiol eu hanwybyddu wrth ddadansoddi testun, fel "this", "and" a "but".*

**Trigramau**
*Ymadrodd tri gair yw trigram.*

## Barsluniau Sampl








Mae DataBasic yn gyfres o offerynnau gwe hwylus i ddechreuwyr sy'n cyflwyno cysyniadau gweithio gyda data. Mae DataBasic yn brosiect yr Engagement Lab yng Ngholeg Emerson a'r MIT Center for Civic Media. Cefnogir gan Sefydliad Knight.

Trwyddedir y gwaith hwn o dan Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0.